**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR ARCHWILIO**

**ADRODDIAD 00-06 – A gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Tachwedd yn unol ag adran 102(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998**

Awdurdod Datblygu Cymru: Creu'r Awdurdod Estynedig a Chefnogaeth yr Awdurdod i Fusnesau Cynhenid Cymru

**CYNNWYS** Paragraff


Rhagarweiniad 1

Cynllunio a Gweithredu'r Broses Gyfuno 4

Rheoli Costau Rhedeg Blynyddol yr Awdurdod 15

Datblygu Targedau Gweithredu Strategol yr Awdurdod 25

Anghenion Busnesau Cynhenid Cymru 29

Rhaglennu Cefnogaeth ar gyfer Busnesau Cynhenid 33

Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion 41


**ATODIADAU**


Atodiad A: Trafodion Perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion Tystiolaeth (Dydd Iau 11 Mai 2000)

Atodiad B: Llythyr gan Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Atodiad C: Ffactorau Allweddol ar gyfer Rheoli Ailstrwythuro Trefniadol yn Llwyddiannus

Atodiad Ch: Y Pwyllgor Archwilio

## RHAGARWEINIAD

(i) Mae'r adroddiad hwn yn delio ag ehangu Awdurdod Datblygu Cymru (yr Awdurdod) ac amrediad a natur cefnogaeth yr Awdurdod i fusnesau cynhenid Cymru. Ar 1 Hydref 1998 rhoddwyd mwy o bwerau a swyddogaethau i'r Awdurdod wrth iddo uno â Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (y Bwrdd Datblygu) ac Awdurdod Tir Cymru (yr Awdurdod Tir). Nod cyffredinol yr uno oedd galluogi'r Awdurdod newydd i gyflwyno ei wasanaethau datblygu economaidd yn fwy effeithiol ac effeithlon ar draws Cymru gyfan. Rhan bwysig o'r gwaith hwnnw - yn awr ac yn y gorffennol - yw cefnogaeth yr Awdurdod i fusnesau cynhenid. Roedd y partneriaid hefyd yn anelu at reoli'r broses gyfuno yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan chwilio am gyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yng nghostau parhaus rhedeg Awdurdod estynedig.

(ii) Wrth baratoi'r adroddiad hwn, gwrandawyd ar dystiolaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru (Atodiadau A a B) ar sail dau adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru[1]. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pump prif fater a gododd o'r archwiliad:

(iii) cynllunio a gweithredu'r broses gyfuno;

(iv) rheoli costau rhedeg blynyddol yr Awdurdod;

(v) datblygu targedau gweithredu strategol yr Awdurdod;

(vi) anghenion busnesau cynhenid Cymru; a

(vii) rhaglennu cefnogaeth ar gyfer busnesau cynhenid.

(viii) Mae'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau a'n casgliadau dan bob un o'r penawdau hyn ynghyd â nifer o argymhellion. Dangosir ein prif gasgliadau ac argymhellion mewn print trwm. Bwriad ein hargymhellion yw cynorthwyo'r Cynulliad i wella ei oruchwyliaeth o waith yr Awdurdod a chynorthwyo'r Awdurdod â'i ymdrechion parhaus i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon mewn prosesau busnes ac wrth ddefnyddio adnoddau. Mae Atodiad C yr adroddiad hwn yn nodi nifer o ffactorau allweddol sy'n bwysig, yn ein tyb ni, ar gyfer rheoli ailstrwythuro trefniadol yn llwyddiannus. Gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol i'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo wrth ymgymryd ag unrhyw brosesau cyfuno neu ad-drefnu eraill yn y dyfodol.

---

[1] Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Mai 2000, ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Mai 2000

## CYNLLUNIO A GWEITHREDU'R BROSES GYFUNO

(i) Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bod yr Awdurdod, y Bwrdd Datblygu a'r Awdurdod Tir, ar y cyfan, wedi cynllunio a gweithredu'r broses gyfuno yn effeithiol[2]. Llwyddodd y tri chorff i fodloni'r targed o sicrhau bod y staff allweddol a'r seilwaith cyfuno hanfodol yn barod wrth iddynt uno ar 1 Hydref 1998. Rhoddodd y partneriaid drefniadau rheoli project cadarn ar waith, a phennu strwythur trefniadol a gofynion staffio'r Awdurdod estynedig mewn da bryd. Ymgymerwyd â chamau synhwyrol ac amserol i resymoli ac integreiddio trefniadau o ran adeiladau a'u systemau ariannol a gwybodaeth reoli. Llwyddodd y tri chorff hefyd i wneud eu gwaith yn ystod y broses gyfuno. Ar yr un pryd, daeth yr Awdurdod i fod yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau ychwanegol yn ystod 1998-1999 a 1999-2000, ac mae'n parhau i gymryd cyfrifoldebau newydd yn 2000-2001[3].

### *Cyraeddiadau'r uno*

(i) O fewn yr amcanion cyffredinol i greu un asiantaeth i gyflwyno amrediad trefnus o wasanaethau datblygu economaidd wedi'u cydlynu ar draws Cymru, lluniwyd y broses gyfuno i gyflawni pedwar nod penodol[4]:

(ii) presenoldeb rhanbarthol cryfach ar gyfer yr Awdurdod newydd a chysylltiadau cryfach â phartneriaethau rhanbarthol;

(iii) dull mwy effeithiol a chyson o ddelio â thir, safleoedd ac adeiladau ar gyfer datblygu;

(iv) arbedion mewn costau cynnal trwy ddileu dyblygu yn swyddogaethau a chostau cysylltiedig y cyrff sy'n uno;

(v) gwneud eu gwaith trwy gyfnod o newid sylweddol.

**Yr ydym yn falch o glywed bod swyddogion y Cynulliad yn credu bod byrddau a swyddogion gweithredol y tri chorff wedi cyflawni eu hamcanion yn sylweddol wrth reoli'r broses gyfuno[5].**

(i) O ganlyniad i'r broses gyfuno, nodwn fod yr Awdurdod o'r farn ei fod yn gorff mwy effeithiol, yn cyflwyno ei wasanaethau datblygu economaidd cynyddol yn gyson ar draws Cymru gyda llai o staff ond mwy o adnoddau yn ei swyddfeydd rhanbarthol[6]. Croesawn y synergedd a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod ers y broses gyfuno. Yr ydym yn falch o

---

[2] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 1.26.

[3] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 4 ac 1.10 a Q11.

[4] Q2

[5] Q3

[6] Q8 a 10

glywed bod yr Awdurdod yn lledaenu arbenigedd yr Awdurdod Tir a'r Bwrdd Datblygu ar draws Cymru gyfan[7]. Yn benodol, nodwn nad yw'r Awdurdod yn gweld unrhyw reswm dros newid dyraniad cyfrifoldebau ei Is-adran Tir a'i is-adrannau rhanbarthol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf[8]. **Yr ydym yn cymeradwyo gwaith yr Awdurdod wrth symleiddio ei strwythur trefniadol a llinellau adrodd ei uwch reolwyr yn dilyn y broses gyfuno.**

(ii) Nodwn fod y broses gyfuno wedi tarfu llawer ar waith yn y tymor byr ac wedi creu ansicrwydd a phryder i staff[9]. Roedd yn ddiddorol nodi mai materion staffio oedd yr elfen fwyaf anodd i'r partneriaid yn y broses gyfuno[10]. Yr ydym yn cydnabod bod llwyddiant y broses gyfuno yn seiliedig i raddau helaeth ar berfformiad staff y tri chorff[11]. **Cymeradwywn ymdrech ac ymrwymiad sylweddol staff y tri chorff wrth gyfrannu at weithredu'r broses gyfuno yn llwyddiannus.**

***Prinder staff***

(i) Er mwyn iddo wneud ei waith yn effeithiol gan gynnig gwasanaethau o safon i fusnesau yng Nghymru, mae'n bwysig fod yr Awdurdod yn recriwtio a chadw'r nifer mwyaf posib o staff medrus a deallus o fewn y costau cynnal a ddyrannwyd iddo gan y Cynulliad. Yr ydym yn cydnabod y gall recriwtio staff cymwys fod yn broblem, ac fe all gymryd amser[12]. Nodwn fod gan yr Awdurdod ar hyn o bryd gyfanswm o 555 o aelodau staff o'i gymharu â'r 573 o aelodau staff y bwriedir eu cael. O fewn y ffigur cyffredinol hwn, mae'r cyfanswm staff craidd wedi cyrraedd y ffigur arfaethedig o 453[13]. Fodd bynnag, yr ydym yn siomedig a'r amser a dreuliwyd gan yr Awdurdod estynedig yn ystod 1998-1999 a 1999-2000 yn cyrraedd y lefelau staffio craidd arfaethedig yn dilyn y broses gyfuno[14]. **Yr ydym yn croesawu sicrwydd yr Awdurdod mai ei flaenoriaeth yn ystod y broses gyfuno ac wedi hynny oedd parhau i wasanaethu cwsmeriaid**[15]. **Er gwaethaf y sicrwydd hwn, yr ydym yn bryderus am y pwysau a achoswyd gan yr**

---

[7] Q10
[8] Q11
[9] Q4
[10] Q6
[11] Q5
[12] Q15ac17
[13] Q15
[14] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 1.11-12 a ffigur 5 a Q15.
[15] Q16

**oedi wrth recriwtio staff ar staff cyfredol yr Awdurdod wrth gyflwyno gwasanaethau'r Awdurdod**[16].

(ii) Er enghraifft, yr ydym yn bryderus ynglŷn ag effaith oedi wrth recriwtio ar allu'r Awdurdod i ddelio a materion mewnol pwysig, fel cynllunio strategol tymor hir, yn ogystal â gweithgareddau mewnol blaenoriaeth is, fel archifo[17]. Yr ydym yn siomedig i ddeall bod materion o'r fath yn dueddol o gael eu gadael hyd nes bod gan yr Awdurdod staff i ddelio â hwy[18]. Nodwn fod yr Awdurdod yn cael costau rhedeg ar gychwyn bob blwyddyn a bod y Cynulliad yn disgwyl i'r Awdurdod reoli'r costau hynny a phenodi'r staff i gyflwyno'i raglenni[19]. Nodwn hefyd fod yr Awdurdod wedi tanwario ar ei gyllideb staff ym 1998-1999[20] a 1999-2000[21]. **Ymddengys y gallai'r Awdurdod fod wedi gwneud yn well ym 1998-1999 a 1999-2000 i recriwtio personél, a dylai fod wedi gwneud felly, pe bai hynny dros dro yn unig, i helpu wrth liniaru effaith y diffyg staff parhaol wrth gyflwyno gwasanaethau a symud materion mewnol yn eu blaenau**.***Gwerth am arian yn y broses gyfuno***

(i) Hyd yma, mae'r broses gyfuno wedi costio tua £2.6 miliwn i'w gweithredu a bydd cyfanswm costau'r broses yn y tymor hir tua £4.18 miliwn (yn ôl prisiau 1998-1999) wedi'i rannu dros y pum mlynedd ar hugain nesaf [22]. Mae'r rhain yn symiau sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Ar yr ochr arall, mae'r broses gyfuno wedi arwain at arbedion cydredol yng nghostau rhedeg y tri chorff, sef £2.25 miliwn y flwyddyn o 1999-2000 ymlaen[23]. Ar y sail hwn, dylai'r broses gyfuno dalu amdani'i hun mewn llai na dwy flynedd. Nodwn fod yr Awdurdod hefyd wedi sicrhau derbynion cyfalaf o £1.5 miliwn o werthu eiddo o ganlyniad uniongyrchol i'r broses gyfuno, gan greu cronfeydd ychwanegol a roddwyd tuag at raglenni Is-adran Tir yr Awdurdod[24]. **Yr ydym yn derbyn y sicrwydd a roddwyd gan**

---

[16] Q16
[17] Q16

[18] Q16
[19] Q17
[20] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 2.14 a Q30.

[21] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 2.7.

[22] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 2.9 a Q54.
[23] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 2.2 a Q31.
[24] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 1.17 a 2.8 a Q38 a 39.

**swyddogion y Cynulliad bod gwerth am arian wedi'i gyflawni yn bendant ac yn fesuradwy o'r broses gyfuno o ran arian, wrth gymharu costau ac arbedion llif arian yn ymwneud â'r broses gyfuno**[25].

### *Enillion a cholledion ehangach*

(i) Y syniad sylfaenol y tu ôl i'r broses gyfuno oedd sicrhau budd sylweddol o ddod â gweithgareddau'r tri chorff at ei gilydd mewn un awdurdod, gan gynnig yr un gwasanaethau datblygu economaidd ar draws Cymru gyfan[26]. O fewn hyn, bwriad y broses gyfuno oedd creu presenoldeb rhanbarthol cryfach i fod yn fwy sensitif i anghenion gwahanol ardaloedd yng Nghymru[27]. Ar yr un pryd, wrth lunio perthynas a'r Cynulliad gall yr Awdurdod sicrhau ei fod yn dod yn fwyfwy sensitif i'r materion sy'n bwysig i Aelodau'r Cynulliad. Mae gan Bwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad yn arbennig rôl allweddol wrth gynorthwyo i fwydo blaenoriaethau'r Awdurdod yn y dyfodol[28]. Yr ydym hefyd yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan wrth adolygu i ba raddau y mae'r Awdurdod yn rhoi gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. **Felly, yr ydym yn croesawu dod â'r cyfrifoldeb am gyflwyno gwasanaethau datblygu economaidd yng Nghymru at ei gilydd mewn un corff, ynghyd â'r manteision ar gyfer monitro effeithiolrwydd a pherfformiad y gwasanaethau a ddaw yn sgil hynny**[29].

(ii) O ran anfanteision, arweiniodd y broses gyfuno at golli Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru. Roedd gan y ddau gorff eu delweddau a'u henwau da eu hunain. Mae'n galonogol clywed bod swyddogion y Cynulliad o'r farn, ar y cyfan, bod y manteision yn fwy na'r anfanteision, ac y cafwyd mantais net sylweddol o'r broses gyfuno, a hynny'n fwy na mantais ariannol yn unig[30].

### *Targedau arbedion y broses gyfuno*

(i) Cymeradwywn bennu targedau ar gyfer lefel yr arbedion ariannol ar gychwyn y broses gyfuno[31]. Nodwn fod swyddogion y cyn Swyddfa Gymreig wedi defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad o'r tri chorff i bennu targed oedd yn uchelgeisiol ac yn realistig, sef amcangyfrif arbedion o £3 miliwn[32]. Fodd bynnag, yr ydym yn bryderus nad oedd gan y cyn Swyddfa Gymreig broses generig neu feini prawf gwrthrychol i'w defnyddio ar gyfer

---

[25] Q4
[26] Q84a85
[27] Q2a&86
[28] Q86
[29] Q85
[30] Q84
[31] Q34-37a44

amcangyfrif lefel yr arbedion tebygol y gellid eu cyflawni o'r broses gyfuno, gan ddibynnu yn hytrach ar farn oddrychol[33].

(ii) Credwn bod lle i'r Cynulliad ddatblygu dull mwy systematig a dadansoddol i bennu targedau arbedion ariannol ar gyfer prosesau cyfuno yn y dyfodol neu ar gyfer ailstrwythuro'r cyrff a noddir ganddo. Nodwn yr ystyriaeth a roddwyd i gymharu sefyllfa'r partneriaid cyfuno â sefyllfa Scottish Enterprise a'r awdurdodau datblygu sy'n cael eu sefydlu yn Lloegr, er bod swyddogion o'r farn na fyddai'r cymariaethau hyn yn fanteisiol yn yr achos arbennig hwn[34]. Nodwn hefyd na wnaed unrhyw gymariaethau arbedion cost gydag unrhyw gyrff yn y sector preifat[35]. Wedi dweud hynny, yr ydym yn falch o glywed am frwdfrydedd swyddogion y Cynulliad yn gyffredinol ar gyfer meincnodi cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn erbyn cyrff yng Nghymru a thu hwnt[36]. **Wrth i'r Cynulliad bennu targedau arbedion ariannol mewn perthynas ag ad-drefnu cyrff cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, argymhellwn y dylai'r targedau hynny gael eu pennu gan gyfeirio at fodel neu batrwm gwrthrychol wedi'i fwydo gan gymariaethau perthnasol a'r sectorau preifat a chyhoeddus.**

**RHEOLI COSTAU RHEDEG BLYNYDDOL YR AWDURDOD**

(i) I reoli ei gostau rhedeg blynyddol yn dilyn y broses gyfuno, mae'r Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith rheoli o derfynau cost rhedeg blynyddol a bennir gan y Cynulliad[37]. Mae swyddogion yn Is-adran Polisi Economaidd y Cynulliad yn monitro'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwneud ei waith ac yn ceisio sicrhau gwerth am arian o'i adnoddau. Mae swyddogion y Cynulliad hefyd yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol a staff yr Awdurdod o leiaf bob mis ac maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd yn amlach na hynny[38]. Yn ehangach na hynny, bydd yr adolygiadau pum mlynedd i waith yr Awdurdod a chyrff eraill a noddir gan y Cynulliad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, i'w cwblhau erbyn 2003, yn galluogi'r Cynulliad i gymharu perfformiad costau rhedeg yr Awdurdod a pherfformiad cyrff eraill[39].

---

[32] Q34,36a48
[33] Q45
[34] Q45
[35] Q35a36
[36] Q45
[37] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 5 a Q17 a 58.
[38] Q37
[39] Cofnod Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 10 Mai 2000, *Datganiad ar Adolygu Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad* a Q45

***Cymhelliannau i sicrhau arbedion mewn costau rhedeg***

(i) Mae Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad a Phrif Weithredwr yr Awdurdod yn gyfrifol, fel Swyddogion Cyfrifo, am sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau[40], a hynny sy'n gyfrifol am y cymhelliant cyffredinol i chwilio am arbedion ariannol yn eu gweithrediadau. Er mai'r prif ddull a ddefnyddir gan yr Awdurdod i adolygu ei gynlluniau, ei adnoddau a'i gostau rhedeg yw'r cylch cyllidebu blynyddol, yr ydym yn falch o ddeall bod yr Awdurdod yn chwilio am arbedion ariannol yn ei gostau rhedeg blynyddol yn gyson[41]. Mae swyddogion y Cynulliad yn eu bodloni eu hunain fod yr Awdurdod yn rheoli ei gostau rhedeg yn effeithiol, ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ostwng y costau hynny mewn dwy brif ffordd[42]. Y cyntaf yw trwy broses o fonitro rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, ond yn enwedig wrth ymateb i gynllun corfforaethol a chynllun busnes blynyddol yr Awdurdod. Yr ail yw'r astudiaeth fanwl ar drefniadaeth a pherfformiad yr Awdurdod a gynhelir o dro i dro dan adolygiad pum mlynedd.

(ii) Nodwn yr adroddiad interim drafft ar gam cyntaf yr adolygiad pum mlynedd i'r Awdurdod, a argymhellodd y dylai'r swyddogaethau a ddarperir gan yr Awdurdod barhau ac mai'r Awdurdod oedd y corff mwyaf priodol i gyflwyno'r swyddogaethau hynny[43]. Cymeradwywn y berthynas ddeinamig, heriol sy'n bodoli rhwng swyddogion y Cynulliad a'r Awdurdod, lle bo cynigion a gweithredoedd yr Awdurdod yn cael eu cwestiynu a'u profi yn gyson i sicrhau eu bod yn gost-effeithiol[44]. **Yr ydym yn annog ymdrechion parhaus swyddogion y Cynulliad i chwilio am systemau a allai roi mwy o gymhelliant i'r Awdurdod weithredu'n fwy effeithlon**[45].

***Rheoli eiddo a defnyddio gofod***

(i) Mae'r Awdurdod yn awyddus i'w swyddfeydd gyfleu delwedd o Gymru lewyrchus, fodern, dechnolegol i fewnfuddsoddwyr a'i gwsmeriaid cynhenid[46]. Wrth reoli ei ystad, dywedodd yr Awdurdod wrthym ei fod yn ymdrechu'n gyson i sicrhau ei fod yn defnyddio'i swyddfeydd yn effeithlon[47]. Yn sgil y broses gyfuno, mae'r Awdurdod wedi ceisio rhesymoli ei eiddo i'r graddau mwyaf posib, gostwng nifer yr adeiladau y mae'n eu defnyddio, gan ostwng costau eiddo. Gwelodd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

---

[40] Q41
[41] Q55
[42] Q57
[43] Cofnodion y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-14-00 (13 Medi 2000) a phapur EDC-14-00(p2)
[44] Q41
[45] Q41
[46] Q72
[47] Q77

fod yr Awdurdod, o ganlyniad uniongyrchol i'r broses gyfuno, wedi cyflawni gwelliant positif yn y defnydd a wneir o ofod yn gyffredinol, ond bod amrywiaeth mawr yn nwysedd y defnydd a wneir rhwng swyddfeydd unigol yn ystad yr Awdurdod[48]. Nodwn fod galwadau'r Awdurdod am adeiladau wedi bod yn newid yn gyson a bod niferoedd staff a dwysedd defnydd wedi cynyddu mewn rhai achosion ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno ei adroddiad i ni ar y defnydd a wneir gan yr Awdurdod o swyddfeydd, yn enwedig yng nghanolfan QED, Trefforest[49]. **Yn sgil canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, disgwyliwn i'r Awdurdod wneud ymdrechion pellach i ddefnyddio ei swyddfeydd yn effeithlon ac yn gost effeithiol. Bwriadwn edrych ar gynnydd yr Awdurdod wrth wella dwysedd defnyddio ei ystad er mwyn arbed costau a chynyddu incwm.**

(ii) Adroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd ar y sgôp i'r Awdurdod leihau ei alw am swyddfeydd parhaol trwy fabwysiadu arferion rhannu desgiau[50]. Dywedodd yr Awdurdod bod gofyn cael newid radical yn ei ddulliau gwaith i effeithio'n sylweddol ar y defnydd a wneir o le, a'i fod yn cyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer rhannu desgiau ac arferion gwaith hyblyg eraill fel teleweithio[51]. **Cymeradwywn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud i edrych ar drefniadau gwaith mwy hyblyg.**

(iii) Nodwn fod yr Awdurdod o'r farn bod angen newidiadau mawr mewn diwylliant o fewn y corff i sicrhau arferion gwaith mwy hyblyg, ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn offer technoleg gwybodaeth[52]. Mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth yn benodol, nodwn y byddai angen cynnydd mewn buddsoddiad i gefnogi teleweithio, a allai helpu staff symudol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon yn eu gwaith a hefyd gallai ddatrys materion yn ymwneud â diwylliant swyddfa a godwyd yn sgil arferion gwaith hyblyg. Nid ydym yn argyhoeddedig, fodd bynnag, fod buddsoddiad sylweddol mewn technoleg gwybodaeth yn amod angenrheidiol cyn y gall yr Awdurdod symud tuag at rannu desgiau. Y rheswm am hynny yw bod yr Awdurdod eisoes yn gweithredu gyda nifer sylweddol o'i staff yn treulio tua 40 i 50 y cant o'u hamser y tu allan i'r swyddfa dan arferion gwaith

[48] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 3.15-16.
[49] Q77
[50] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 3.23-27.
[51] Q56,66ac82
[52] Q56

cyfredol a threfniadau cefnogi technoleg gwybodaeth, gan wneud hynny'n eithaf effeithiol yn ôl bob sôn[53].

(iv) Y mater allweddol, yn ein tyb ni, gan fod nifer sylweddol o staff yr Awdurdod eisoes yn treulio hyd at 50 y cant o'u hamser i ffwrdd o'r swyddfa, yw bod modd i'r Awdurdod ostwng y galw am swyddfeydd parhaol yn awr trwy ryddhau lle a danddefnyddir trwy fabwysiadu trefniadau rhannu desg. Mae hyn yn debygol o gynnwys gwariant rhesymol ar ad-drefnu swyddfeydd ac addasu systemau diogelwch a mynediad i adeiladau, a gallai arwain at arbedion sylweddol mewn costau neu greu incwm rhent ychwanegol i'r Awdurdod, fel y nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad[54]. **Felly, argymhellwn fod yr Awdurdod yn symud ymlaen ar y mater hwn fel blaenoriaeth gan brofi trefniadau rhannu desg a fyddai'n weddol rhad i'w sefydlu, ar wahân i'r mentrau sydd ar waith i edrych ar arferion gwaith hyblyg eraill fel teleweithio a fyddai'n debygol o ofyn am fuddsoddiad sylweddol ar dechnoleg newydd.**

***Rheoli ynni a defnyddio ynni***

(i) Nododd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru y potensial ar gyfer gwella arferion rheoli ynni yr Awdurdod[55]. Nodwn fod yr Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'i adeiladau yn QED, Trefforest a'i fod wedi comisiynu adolygiadau yn Llys-y-Ddraig, Penllergaer a Thŷ Ladywell, y Drenewydd a Principality House, Caerdydd, â'r nod o geisio gwella effeithlonrwydd ynni ar ei ystad[56]. Nodwn fod yr Awdurdod o'r farn ei fod wedi'i gyfyngu i raddau gan ansawdd, oed a natur ei adeiladau, ac roedd gennym ddiddordeb i glywed am ddiffygion penodol adeilad QED, Trefforest[57]. Ond gan fod yr Awdurdod yn berchen ar y rhan fwyaf o'i ystad y tu allan i rydd-ddaliad Caerdydd, mae'r cyfyngiadau hyn yn bodoli o ganlyniad i benderfyniadau'r Awdurdod yn y gorffennol ynglŷn â lleoliad adeiladau a'r adeiladau i'w prynu. **Anogwn yr Awdurdod yn ei ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni ac i sicrhau arbedion mewn costau ynni a byddwn yn dilyn y cynnydd hwn â diddordeb.**

(ii) Credwn nad yw'r Awdurdod wedi rhoi digon o flaenoriaeth i ddatblygu polisi rheoli ynni corfforaethol a hyrwyddo mesurau i ddefnyddio golau a gwres yn fwy gofalus, ac

[53] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 3.23-25 a Q56.
[54] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 3.24-25.
[55] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 3.11-13 Q59.
[56] Q56
[57] Q60a69

eithrio annog ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith staff ynglŷn â'r angen i arbed costau ynni[58]. Yr ydym yn siomedig i glywed hefyd, yng nghyd-destun polisi'r Cynulliad ar yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, nad yw'r adolygiadau ynni y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cynnal yn edrych ar y sgôp i hyrwyddo'r defnydd a wneir o ynni a gynhyrchir trwy ddulliau sy'n amgylcheddol gyfeillgar[59]. Fodd bynnag, cymeradwywn ddull 'gwario i arbed' yr Awdurdod o ddelio â buddsoddiad cyfalaf mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a rheoli ynni, os yw cynigion penodol wedi'u cyfiawnhau ar sail gwerth am arian. **Argymhellwn y dylai'r Awdurdod weithredu fel esiampl i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru trwy hyrwyddo arferion rheoli ynni da yn weithredol yn ei adeiladau ei hun a thrwy fabwysiadu agenda datblygu cynaliadwy'r Cynulliad yn frwdfrydig.**

***Meincnodi Costau Rhedeg Blynyddol yr Awdurdod***

(i) Yr ydym eisoes wedi nodi (paragraff 14) diddordeb swyddogion y Cynulliad mewn meincnodi ar draws y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, trwy broses o nodi dangosyddion cyffredin sylfaenol a chwilio am esboniadau ynglŷn â gwahaniaethau mewn perfformiad rhyngddynt[60]. Credwn y gallai'r Awdurdod wneud mwy i feincnodi ei berfformiad ei hun wrth reoli ei gostau rhedeg blynyddol, yn enwedig ym maes costau swyddfa ac adeiladau. Nodwn nad yw'r Awdurdod yn meincnodi'r defnydd a wneir ganddo o'i swyddfeydd yn systematig, er ei fod yn cynnal cymariaethau allanol i raddau[61]. Yr ydym yn falch o glywed bod yr Awdurdod o'r farn bod adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ac yn gwneud iddo feddwl am feincnodi, yn enwedig ym maes rheoli ynni [62]. **Argymhellwn y dylai'r Awdurdod hefyd gymryd camau ar unwaith i ddatblygu a chynnwys meincnodi priodol yn ei brosesau i fonitro ac adolygu ei gostau rhedeg sy'n ymwneud â rheoli, i gynnwys meincnodi'r defnydd a wneir o ynni a gofod yn unol â Rhan 3 o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

**DATBLYGU TARGEDAU GWEITHREDU STRATEGOL YR AWDURDOD**

(i) Yr Awdurdod estynedig yw prif asiant y Cynulliad ar gyfer cyflwyno a hyrwyddo datblygiad economaidd yng Nghymru. Ers 1 Gorffennaf 1999 bu'r Cynulliad yn gyfrifol am bennu fframwaith polisi ac adnoddau ar gyfer yr Awdurdod estynedig, penodi aelodau

---

[58] Q59a60
[59] Q63-65
[60] Q45
[61] Q78

bwrdd yr Awdurdod a goruchwylio gweithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod[63]. Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn derbyn canllawiau a thargedau strategol gan y Cynulliad i gynorthwyo wrth gynllunio a blaenoriaethu ei raglen a'i adnoddau[64]. Bydd yr adolygiad pum mlynedd nesaf o'r Awdurdod, i'w gynnal yn ystod 2000-2001, yn rhoi cyfle i'r Cynulliad adolygu swyddogaethau ac effeithiolrwydd strategol yr Awdurdod yn drylwyr[65].

***Perfformiad y gorffennol yn erbyn targedau strategol***

(i) Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi gwybodaeth am berfformiad y partneriaid yn erbyn eu targedau strategol ar gyfer 1998-1999[66], ac mae Adroddiad Blynyddol 1999-2000 yr Awdurdod, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn crynhoi ei berfformiad yn ystod y flwyddyn honno. **Yr ydym yn cydnabod y ffaith bod perfformiad busnes yr Awdurdod ym 1998-1999 a 1999-2000 ar y cyfan yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r Cynulliad, yn ôl y targedau strategol a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod, a disgwyliwn i'r Cynulliad sicrhau bod targedau'r dyfodol yn ddigon caled a llym**[67].

***Targedau strategol a meini prawf perfformiad y dyfodol***

(i) Gan droi at bennu targedau strategol ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2000-2001, yr ydym yn bryderus na dderbyniodd yr Awdurdod rybudd ffurfiol ynglŷn â'i dargedau strategol ar gyfer 2000-2001 gan y Cynulliad tan 14 Mehefin 2000, wedi i ddeg wythnos o'r flwyddyn ariannol yr oedd y targedau yn cyfeirio ati fynd heibio[68]. Deallwn mai'r rheswm am yr oedi hwn wrth bennu'r targedau oedd y dymuniad i gydweddu targedau'r Awdurdod â dogfennau cynllunio strategol y Cynulliad ei hun, tra'n adlewyrchu hefyd y newid mewn methodoleg ar gyfer cyfrif llawer o'r targedau yn flaenorol[69]. Nodwn hefyd bod targedau strategol yr Awdurdod yn dal i esblygu a bod y targedau ar gyfer 2000-2001 yn rhoi cipolwg ar y syniadau cyfredol yn hytrach na set pendant o dargedau terfynol[70]. Yr ydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r angen am ymgynghori digonol o fewn y Cynulliad

---

62 Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* yn enwedig paragraffau 33,11-27 a Q78.
63 Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraff 5.
64 Q12a13
65 Cofnod Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 10 Mai 2000, *Datganiad ar Adolygu Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad* a Q57
66 Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Broses o Greu Awdurdod Estynedig a Chwilio am Arbedion yn y Dyfodol* paragraffau 1.23-4.
67 Q4
68 Q13 ac Atodiad B *Datganiad Ysgrifenedig gan Brif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Targedau Strategol Awdurdod Datblygu Cymru 2000-2001*
69 Q26

ynglŷn â thargedau strategol yr Awdurdod ac yn cefnogi ymdrechion y Cynulliad cyfan i lunio set cynhwysfawr, integredig a chadarn o dargedau busnes strategol ar gyfer yr Awdurdod. **Ond gwelwn fod sgôp ar gyfer gwella'r drefn o bennu targedau ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod a sicrhau bod targedau o'r fath yn cael eu cwblhau mor gynnar ag y bo modd bob blwyddyn.**

(ii) O ran cyfansoddiad targedau strategol yr Awdurdod, yr ydym yn cydnabod mai mater i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd (ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd) yw manylion y targedau. Fodd bynnag, wrth ein cynorthwyo i asesu effeithiolrwydd defnydd yr Awdurdod o'i adnoddau wrth wneud ei waith byddai'n ddefnyddiol gallu gwahaniaethu rhwng perfformiad yr Awdurdod wrth greu swyddi newydd ar un llaw ac wrth ddiogelu swyddi ar y llall[71]. **Felly, croesawn ddatganiad diweddar y Prif Ysgrifennydd y bydd yr adolygiad parhaus o dargedau strategol a meini prawf perfformiad yr Awdurdod yn ystyried pennu targedau ar wahân ar gyfer swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu, yn ogystal â phennu swyddi ar sail net yn hytrach na gros**[72].

## ANGHENION BUSNESAU CYNHENID CYMRU

(i) Mae busnesau cynhenid Cymru yn cynnwys busnesau o lawer gwahanol maint a gwahanol sectorau yn yr economi. Mae'r rhan fwyaf o'r 60,000+ o fusnesau cynhenid yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig, yn cyflogi llai na 200 o bobl yr un. Mae gan y busnesau hyn anghenion gwahanol o ran sector busnes a lleoliad daearyddol[73]. Mae'r Awdurdod yn ymgymryd ag amrediad eang o weithgareddau i gefnogi creu a datblygu busnesau cyfredol Cymru, yn annog mewnfuddsoddi o'r tu allan i'r rhanbarth ac yn hybu twf busnesau[74]. Wrth wneud hyn, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau a pharatoi tir ar gyfer datblygu, hyrwyddo darparu seilwaith, darparu neu gaffael eiddo, a chefnogi datblygiad busnesau[75].

---

[70] Q23
[71] Q26a27
[72] Atodiad B *Datganiad Ysgrifenedig Prif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Targedau Strategol Awdurdod Datblygu Cymru 2000-2001*
[73] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 4
[74] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 5
[75] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 6

*Ymchwil yr Awdurdod i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru*

(i) Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar oedi wrth i'r Awdurdod ymgymryd ag arolwg diffiniol o nodweddion, cyfyngiadau ac anghenion busnesau cynhenid bach a chanolig yng Nghymru[76]. O'n hymholiadau ni, gwelwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn bwriadu cynnal y gwaith ymchwil hwn ar fusnesau cynhenid, gan gynnwys eu llwyddiant wrth greu swyddi o'u cymharu â mewnfuddsoddwyr, ers mis Gorffennaf 1998 o leiaf[77]. O ystyried pwysigrwydd yr ymchwil, yr oeddem yn synnu mai'n ddiweddar yn unig y penododd yr Awdurdod ymgynghorwyr i ymgymryd â'r project[78]. **Yr ydym yn siomedig iawn am yr oedi wrth ddylunio a chomisiynu gwaith ymchwil i'r sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru, o ystyried pwysigrwydd y gwaith ymchwil wrth ddatblygu polisi ar gefnogi busnesau cynhenid, datblygu rhaglenni cymorth busnes priodol a thargedu adnoddau'r Awdurdod yn effeithiol ar anghenion busnesau cynhenid.**

(ii) Nodwn rôl uned rheoli adolygiadau'r Cynulliad wrth sicrhau nad yw busnesau'n gorfod delio â gormod o adolygiadau ac na cheir unrhyw ddyblygu[79]. Croesawn y ffaith fod yr Awdurdod yn cytuno â ni ar yr angen i ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn mor fuan ag y bo modd[80] a bod uned rheoli adolygiadau'r Cynulliad yn awr wedi rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn[81]. **Felly, argymhellwn fod yr Awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i gwblhau'r ymchwil a gomisiynwyd i nodweddion, cyfyngiadau ac anghenion busnesau bach a chanolig yng Nghymru.**

*Gwybodaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig*

(i) Gan droi at yr wybodaeth sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i'w cynorthwyo i sefydlu a datblygu, cawsom gytundeb ar yr angen i resymoli a chydlynu darpariaeth cyngor i fusnesau o'r fath[82]. Nodwn fod Cyswllt Busnes yn elfen allweddol wrth bontio'r bwlch gwybodaeth rhwng anghenion busnesau bach a'r rhaglenni cefnogaeth sydd ar gael iddynt, ac yr ydym yn falch o weld bod yr Awdurdod o'r farn bod Cyswllt Busnes yn llwyddiannus iawn ar lefel leol[83]. Mae'n ddiddorol nodi, wrth geisio bodloni

---

[76] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 21

[77] Q92

[78] Atodiad B, *Papur i'r Pwyllgor Archwilio: Arolwg WDA SME* [ar gael yn gyhoeddus yn awr gan ei fod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio heb unrhyw gyfyngiadau cyfrinachedd]

[79] Q98-100

[80] Q95

[81] Q100

[82] Q118-120

[83] Q120

anghenion busnesau bach, bod yr Awdurdod yn cael trafferthion wrth farchnata'r nifer fawr o gynlluniau gwahanol y mae'n eu gweithredu, tra bo'r busnesau yn cael trafferthion wrth ddeall beth sydd ar gael iddynt o ran cyngor a chefnogaeth[84]. **Yr ydym yn annog yr Awdurdod yn ei ymdrechion i symleiddio'r drefn o ddarparu gwybodaeth a chyngor i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru**[85].

**RHAGLENNU CEFNOGAETH AR GYFER BUSNESAU CYNHENID**

(i) Mae'r Awdurdod yn gweithredu ei raglenni a'i gynlluniau ar gyfer cefnogi busnesau cynhenid yn unol â'i dargedau strategol, a bennir gan y Cynulliad bob blwyddyn, ac yn trefnu ei waith i gyflawni'r targedau hynny[86].

***Cydbwysedd rhwng cefnogi busnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr***

(i) Nododd yr Awdurdod, ac eithrio ei raglenni sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddenu mewnfuddsoddiad, bod bron iawn y cwbl y mae'n ei wneud yn delio â chefnogi busnesau cynhenid[87]. Nid yw'r Awdurdod yn dosbarthu ei weithgareddau yn benodol fel cefnogaeth ar gyfer busnesau cynhenid neu fewnfuddsoddwyr ac nid yw'n meddwl am ei waith o ran gwahaniaethu manwl rhwng y ddau[88]. Mae'r Awdurdod yn gwario tua £10 miliwn y flwyddyn yn uniongyrchol ar fewnfuddsoddi a thua £35 miliwn y flwyddyn ar gynlluniau sydd wedi'u hanelu'n benodol at fusnesau lleol, tra bo'r gweddill o'i gyllideb (tua £130 miliwn ym 1999-2000) yn gallu mynd ar y ddau[89]. **Nodwn ymrwymiad ac ymdrechion yr Awdurdod i gefnogi busnesau cynhenid yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith nad yw'r Awdurdod yn trefnu ei hun yn ffurfiol nac yn meddwl amdano'i hun yn gweithio ar wahân fel hyn.**

(ii) Fodd bynnag, yr ydym yn bryderus am y diffyg neges glir gan y Cynulliad, ac eithrio trwy dargedau strategol cyffredinol, ynglŷn â'r cydbwysedd priodol rhwng rhoi cefnogaeth i fusnesau cynhenid ar un llaw a mewnfuddsoddwyr ar y llall[90]. Yn benodol, nid oeddem yn gallu gweld bod gweithgareddau'r Awdurdod wedi'u teilwra i ymateb i her benodol datblygu busnesau cynhenid yng Nghymru[91]. Nodwn ddatganiad yr Awdurdod ei fod yn rhoi cryn dipyn yn fwy o adnoddau o ran arian a phobl i gefnogi busnesau cynhenid na

84 Q119
85 Q119
86 Q90a126
87 Q126
88 Q141
89 Q124
90 Q125-137
91 Q126

mewnfuddsoddwyr[92]. Ond o ystyried bod blaenoriaethau yn gyffredinol wedi bod yn newid yn ôl ac ymlaen yn y maes hwn mewn blynyddoedd diweddar[93], credwn fod angen eglurhad i gynorthwyo'r Awdurdod gyda'i flaenoriaethau a'i raglennu mewnol. Credwn hefyd y byddai'n ddefnyddiol datblygu trefniadau monitro sy'n gwahaniaethu'n fwy clir rhwng sicrhau mewnfuddsoddi a datblygu busnesau cynhenid, gan helpu cwsmeriaid a hapddalwyr i asesu effeithiolrwydd yr Awdurdod yn gyfan. **Argymhellwn y dylai'r Cynulliad sefydlu canllawiau, ar y cyd â'r Awdurdod, ar y pwyslais priodol rhwng cefnogi busnesau cynhenid a chefnogi mewnfuddsoddwyr o fewn fframwaith ei dargedau strategol a'i feini prawf perfformiad, ac y dylai'r Awdurdod ddatblygu trefniadau priodol ar gyfer asesu effeithiolrwydd ei berfformiad yn y ddau faes allweddol hyn.**

***Blaenoriaethau rhaglen***

(i) Mae cefnogaeth yr Awdurdod ar gyfer busnesau cynhenid yng Nghymru yn llawer ehangach na'i raglenni datblygu busnes, ac mae'n amrywio o ddarparu adeiladau, safleoedd a seilwaith i adfywio'r amgylchedd i ddarparu amgylchedd iachach i fusnesau[94]. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu nifer o raglenni unigol gyda'u targedau, eu hallbwn, eu gwariant a'u trefniadau rheoli eu hunain[95]ac mae'n cynnig amrediad o gefnogaeth i fusnesau, gan gynnwys grantiau ariannol, ar gyfer projectau penodol o fewn y rhaglenni hyn[96]. Wrth wneud hyn, mae'r Awdurdod yn nodi anghenion cwmnïau unigol ac yn dewis y rhaglen neu'r cyfuniad o raglenni fydd yn gallu bodloni'r anghenion hynny[97].

(ii) Yr ydym yn falch o glywed bod bron pob un o raglenni'r Awdurdod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gallu cystadleuol busnesau Cymru, gan gynnwys rhaglenni Ffynhonnell Cymru yr Awdurdod a'i ffocws cynyddol ar hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu modern[98]. Yr ydym hefyd yn falch o glywed am effaith rhaglenni adfywio cymunedol yr Awdurdod mewn cymunedau bach a mawr ar draws Cymru[99]. **Yn benodol, croesawn y ffaith bod pwyslais yr Awdurdod ar adfywio cymunedol yn llawer mwy erbyn hyn na'r hyn a fu yn y gorffennol a'i fod bellach yn uchel ar restr blaenoriaethau'r Awdurdod.**

---

[92] Q142
[93] Q128
[94] Q87-89
[95] Q127
[96] Q144
[97] Q119
[98] Q104a116
[99] Q103

(iii) Rhan bwysig o gefnogaeth yr Awdurdod i fusnesau cynhenid yw ei waith i ddarparu mynediad iddynt at gyllid. Mae'r Awdurdod yn gweithredu cronfa o fenthyciadau bach i roi cefnogaeth ariannol os yw busnes yn cael anawsterau wrth ddenu cronfeydd o'r sector preifat. Mae'r gronfa benthyciadau bach yn rhan o waith ehangach yr Awdurdod yn Cyllid Cymru, a sefydlwyd yn ddiweddar fel is-gwmni o'r Awdurdod i roi cefnogaeth dyledion, ecwiti a rheolaeth i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru[100]. Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithredu cynlluniau cyllid uniongyrchol, a nodwn fod yr Awdurdod hyd yma wedi rhoi rhyw 16 o fenthyciadau dan y cynlluniau cymharol newydd hyn. Bydd gennym ddiddordeb maes o law mewn edrych ar weithrediad y cynlluniau hyn yn fanylach. **Yn y cyfamser, nodwn fwriad yr Awdurdod i gymharu cofnodion colledion dan ei gynlluniau cyllid uniongyrchol â'r rhai a gafwyd yn y sector preifat.**

(i) O'r £23 miliwn a wariwyd gan yr Awdurdod ar ddatblygu busnesau ym 1999-2000, aeth bron i'w hanner ar gefnogi ardaloedd gwledig[101]. Mae gennym dystiolaeth anecdotaidd bod rhai busnesau yn y Cymoedd naill ai'n adleoli, neu'n meddwl am adleoli, y tu allan i Gymru, ac yr ydym yn pryderu a wneir digon i'w cadw yn y Cymoedd, ac yn benodol i gadw cysylltiadau agos â busnesau yn yr ardal hon[102]. **Fe'n calonogwyd o glywed bod yr Awdurdod o'r farn ei fod yn gwario cyfran deg o'i gyllideb datblygu busnesau yn ardal y Cymoedd.**

(ii) Yn olaf, nodwn â diddordeb yr argymhelliad diweddar gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd i drosglwyddo swyddogaethau menter y Cynghorau Hyfforddiant a Menter i'r Awdurdod pan ddaw'r cyrff hynny i ben ar 1 Ebrill 2001[103]. **Yn y cyswllt hwn, croesawn symudiad diweddar yr Awdurdod tuag at roi mwy o gefnogaeth i fusnesau bach na'r hyn a roddwyd ers i'r Awdurdod golli ei rôl o gefnogi busnesau bach i'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter ar ddechrau'r 1990au**[104].

## CRYNODEB O'R PRIF GASGLIADAU AC ARGYMHELLION

(i) Ar y cyfan, credwn fod y broses gyfuno wedi bod yn llwyddiannus, a'i bod wedi'i gwneud yn dda[105]. Creodd yr uno Awdurdod estynedig sy'n cynnig gwasanaethau

---

[100] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 19 a Q106
[101] Adroddiad ACC *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* paragraff 12 a Q114a115
[102] Q114
[103] Cofnodion y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-11-00 paragraff 5.5
[104] Q 101a121
[105] Q4

datblygu economaidd cyffredin ar draws Cymru gyfan, ac yn darparu un corff i ddatblygu'r gwasanaethau hynny i fod yn sensitif i anghenion gwahanol ardaloedd fel y Cymoedd a Chymru wledig[106]. Yn ein barn ni, mae'r uno yn rhoi cyfleoedd gwych i'r Awdurdod atgyfnerthu ei berthynas strategol â'r Cynulliad a gwella ei gysylltiadau gweithredol â'i bartneriaid busnes ar gyfer cyflwyno gwasanaethau datblygu economaidd. Rhoddodd y broses gyfuno gyfle hefyd i'r Awdurdod edrych ar y sgôp i gael arbedion unigol mewn costau rhedeg tra'n rhoi mwy o fomentwm i fentrau gwella busnes parhaus yr Awdurdod. Bwriadwn ddychwelyd eto i edrych ar sut y mae'r Awdurdod estynedig yn cyflwyno ei wasanaethau yn fwy effeithiol ac yn gweinyddu ei weithrediadau yn fwy effeithlon wedi i effaith yr uno gael cyfle i wreiddio.

(ii) Ceir crynodeb isod o'n prif gasgliadau.

***Cynllunio a gweithredu'r broses gyfuno***

(i) Yr ydym yn falch o glywed bod swyddogion y Cynulliad yn credu bod byrddau a swyddogion gweithredol y tri chorff wedi cyflawni eu hamcanion yn sylweddol wrth reoli'r broses gyfuno.

(ii) Yr ydym yn cymeradwyo gwaith yr Awdurdod wrth symleiddio ei strwythur trefniadol a llinellau adrodd ei uwch reolwyr yn dilyn y broses gyfuno.

(iii) Cymeradwywn ymdrech ac ymrwymiad sylweddol staff y tri chorff wrth gyfrannu at weithredu'r broses gyfuno yn llwyddiannus.

(iv) Yr ydym yn croesawu sicrwydd yr Awdurdod mai ei flaenoriaeth yn ystod y broses gyfuno ac wedi hynny oedd parhau i wasanaethu cwsmeriaid. Er gwaethaf y sicrwydd hwn, yr ydym yn bryderus am y pwysau a achoswyd gan yr oedi wrth recriwtio staff ar staff cyfredol yr Awdurdod wrth gyflwyno gwasanaethau'r Awdurdod.

(v) Gallai'r Awdurdod fod wedi gwneud mwy - a dylai fod wedi gwneud mwy - ym 1998-1999 a 1999-2000 i recriwtio personél, pe bai hynny ar sail dros dro yn unig, i liniaru effaith y diffyg cyffredinol yn nifer y staff parhaol ar gyflwyno gwasanaethau a symud ymlaen â materion mewnol.

(vi) Yr ydym yn derbyn y sicrwydd a roddwyd gan swyddogion y Cynulliad bod gwerth am arian wedi'i gyflawni yn bendant ac yn fesuradwy o'r broses gyfuno o ran arian, wrth gymharu costau ac arbedion llif arian yn ymwneud â'r broses gyfuno.

[106] Q86

(vii) Yr ydym yn croesawu dod â'r cyfrifoldeb am gyflwyno gwasanaethau datblygu economaidd yng Nghymru at ei gilydd mewn un corff, ynghyd â'r manteision ar gyfer monitro effeithiolrwydd a pherfformiad y gwasanaethau a ddaw yn sgil hynny.

***Rheoli Costau Rhedeg Blynyddol yr Awdurdod***

(i) Yr ydym yn annog ymdrechion parhaus swyddogion y Cynulliad i chwilio am systemau a allai roi mwy o gymhelliant i'r Awdurdod weithredu'n fwy effeithlon.

(ii) Yn sgil canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, disgwyliwn i'r Awdurdod wneud ymdrechion pellach i ddefnyddio ei swyddfeydd yn effeithlon ac yn gost effeithiol. Bwriadwn edrych ar gynnydd yr Awdurdod wrth wella dwysedd defnyddio ei ystad er mwyn arbed costau a chynyddu incwm.

(iii) Cymeradwywn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud i edrych ar drefniadau gwaith mwy hyblyg.

(iv) Anogwn yr Awdurdod yn ei ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni ac i sicrhau arbedion mewn costau ynni a byddwn yn dilyn y cynnydd hwn â diddordeb.

***Datblygu Targedau Gweithredu Strategol yr Awdurdod***

(i) Yr ydym yn cydnabod y ffaith bod perfformiad busnes yr Awdurdod ym 1998-1999 a 1999-2000 ar y cyfan yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r Cynulliad, yn ôl y targedau strategol a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod, a disgwyliwn i'r Cynulliad sicrhau bod targedau'r dyfodol yn ddigon caled a llym.

(ii) Gwelwn fod sgôp ar gyfer gwella'r drefn o bennu targedau ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod a sicrhau bod targedau o'r fath yn cael eu cwblhau mor gynnar ag y bo modd bob blwyddyn.

(iii) Croesawn ddatganiad diweddar y Prif Ysgrifennydd y bydd yr adolygiad parhaus o dargedau strategol a meini prawf perfformiad yr Awdurdod yn ystyried pennu targedau ar wahân ar gyfer swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu, yn ogystal â phennu swyddi ar sail net yn hytrach na gros.

***Anghenion busnesau cynhenid Cymru***

(i) Yr ydym yn siomedig iawn am yr oedi wrth ddylunio a chomisiynu gwaith ymchwil i'r sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru, o ystyried pwysigrwydd y gwaith ymchwil wrth ddatblygu polisi ar gefnogi busnesau cynhenid, datblygu rhaglenni cymorth busnes priodol a thargedu adnoddau'r Awdurdod yn effeithiol ar anghenion busnesau cynhenid.

(ii) Yr ydym yn annog yr Awdurdod yn ei ymdrechion i symleiddio'r drefn o ddarparu gwybodaeth a chyngor i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

***Rhaglennu cefnogaeth ar gyfer busnesau cynhenid***

(i) Nodwn ymrwymiad ac ymdrechion yr Awdurdod i gefnogi busnesau cynhenid yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith nad yw'r Awdurdod yn trefnu ei hun yn ffurfiol nac yn meddwl amdano'i hun yn gweithio ar wahân fel hyn.

(ii) Croesawn y ffaith bod pwyslais yr Awdurdod ar adfywio cymunedol yn llawer mwy erbyn hyn na'r hyn a fu yn y gorffennol a'i fod bellach yn uchel ar restr blaenoriaethau'r Awdurdod.

(iii) Nodwn fwriad yr Awdurdod i gymharu cofnodion colledion dan ei gynlluniau cyllid uniongyrchol â'r rhai a gafwyd yn y sector preifat.

(iv) Fe'n calonogwyd o glywed bod yr Awdurdod o'r farn ei fod yn gwario cyfran deg o'i gyllideb datblygu busnesau yn ardal y Cymoedd.

(v) Yr ydym yn croesawu symudiad diweddar yr Awdurdod tuag at roi mwy o gefnogaeth i fusnesau bach na'r hyn a welwyd ers i'r Awdurdod golli ei rôl o gefnogi busnesau bach i'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter ar ddechrau'r 1990au.

(vi) Yn sgil ein canfyddiadau a'n casgliadau, yr ydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

(vii) Wrth i'r Cynulliad bennu targedau arbedion ariannol mewn perthynas ag ad-drefnu cyrff cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, argymhellwn y dylai'r targedau hynny gael eu pennu gan gyfeirio at fodel neu batrwm gwrthrychol wedi'i fwydo gan gymariaethau perthnasol â'r sectorau preifat a chyhoeddus.

(viii) Argymhellwn fod yr Awdurdod yn symud ymlaen ar y mater hwn fel blaenoriaeth gan brofi trefniadau rhannu desg a fyddai'n weddol rhad i'w sefydlu, yn annibynnol i'r mentrau sydd ar waith i edrych ar arferion gwaith hyblyg eraill fel teleweithio a fyddai'n debygol o ofyn am fuddsoddiad sylweddol ar dechnoleg newydd.

(ix) Argymhellwn y dylai'r Awdurdod weithredu fel esiampl i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru trwy hyrwyddo arferion rheoli ynni da yn weithredol yn ei adeiladau ei hun a thrwy fabwysiadu agenda datblygu cynaliadwy'r Cynulliad yn frwdfrydig.

(x) Argymhellwn y dylai'r Awdurdod hefyd gymryd camau ar unwaith i ddatblygu a chynnwys meincnodi priodol yn ei brosesau i fonitro ac adolygu ei gostau rhedeg rheoli, i gynnwys meincnodi'r defnydd a wneir o ynni a gofod yn unol â Rhan 3 o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(xi) Argymhellwn fod yr Awdurdod yn rhoi blaenoriaeth uchel i gwblhau'r ymchwil a gomisiynwyd i nodweddion, cyfyngiadau ac anghenion busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

(xii) Argymhellwn y dylai'r Cynulliad sefydlu canllawiau, ar y cyd â'r Awdurdod, ar y pwyslais priodol rhwng cefnogi busnesau cynhenid a chefnogi mewnfuddsoddwyr o fewn fframwaith ei dargedau strategol a'i feini prawf perfformiad, ac y dylai'r Awdurdod ddatblygu trefniadau priodol ar gyfer asesu effeithiolrwydd ei berfformiad yn y ddau faes allweddol hyn.

# ATODIAD A

Ceir cofnod dwythieithog o drafnodion y pwllgorau yn fersiwn Saesneg yr adroddiad (Atodiad A).

# ATODIAD B

Nid yw'r cyfeithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.  Gweler y fersiwn Saesneg.

# ATODIAD C

Nid yw'r cyfeithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.  Gweler y fersiwn Saesneg.

# ATODIAD Ch

***Y PWYLLGOR ARCHWILIO***

*Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr*. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

**Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd ar 9 Tachwedd 2000:**

Janet Davies (Plaid Cymru) - Cadeirydd
Alan Cairns (Ceidwadwr)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Alison Halford (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Peter Law (Llafur)
Lynne Neagle (Llafur)
Dafydd Wigley (Plaid Cymru)
Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol)

**Gellir cael gwybodaeth bellach am y Pwyllgor gan:**

Julie Bragg
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898026
E-bost: audit.comm@wales.gsi.gov.uk